# Safon Uwch Drama ac Astudiaethau Theatr (Amser Llawn)

Mae'r Astudiaethau Drama a Theatr Lefel UG / Safon Uwch yn gwrs Addysg Bellach Amser Llawn wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb yn y diwydiant celfyddydau perfformio ac adloniant. Mae hwn wedi'i leoli yn yr Academi Chweched Dosbarth (SFA).

Mae'n gwrs hynod ymarferol sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr weithio fel perfformwyr neu ddylunwyr set, gan gyfuno'r gweithgareddau o archwilio dramâu, creu theatr, perfformio dramâu, dadansoddi theatr a gwerthuso'r holl elfennau hyn yn feirniadol.

Mae'r cwrs yn caniatáu ichi astudio o leiaf dau destun perfformiad cyflawn ynghyd â thri dyfyniad allweddol sy'n ymdrin ag ystod o gyfnodau a chyd-destunau. Byddwch hefyd yn cymryd rhan mewn o leiaf dau berfformiad ac yn ystyried dulliau gweithio ymarferydd theatr. Mae adolygiadau theatr byw yn rhan o'r asesiad heb ei archwilio a byddant yn cael eu defnyddio i asesu gwaith ymarferol.

Ymgeisio am Lefelau UG neu Lefel A? Cliciwch 'Gwnech Gais Nawr' ar unrhyw UN o'r pynciau y mae gennych ddiddordeb mewn eu hastudio. Llenwch y ffurflen gais ar-lein, lle gofynnir i chi nodi'ch dau ddewis arall. Yna archebwch apwyntiad Cyfweliad i gwrdd â'r tiwtoriaid a thrafod y dewisiadau sydd orau gennych.

## Gofynion Mynediad

6 TGAU â Gradd C neu uwch gan gynnwys Cymraeg/Saesneg, mae TGAU â Gradd C neu uwch mewn Maths yn ddymunol. TGAU Saesneg Iaith Gradd B a argymhellir

## Rhagolygon Gyrfa

Actio, Astudiaethau Theatr a Chelfyddydau Perfformiadol mewn Addysg Uwch. Gellir ei ddefnyddio fel rhan o'ch cwrs i ehangu eich astudiaethau a gall arwain at yrfa yn niwydiannau'r celfyddydau perfformiadol.

## Costau Ychwanegol

Bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â chwrs.

## DULL ASTUDIO

FT

## LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

## HYD Y CWRS

2Y